**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 18 Hydref, 2011 yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi**

**YN BRESENNOL**

Aelodau: Y Cyng. David Richardson, (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Anne Lloyd Jones, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Dewi Owen, (Cyngor Gwynedd), Alun Wyn Evans, (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. Megan Reynolds, Cyngor Cymuned Aberdyfi), Y Cyng. Brian Bates (Cyngor Cymuned Aberdyfi), Mr Desmond George (Clwb Hwylio Aberdyfi), Mr W Bracewell (Partneriaeth Aberdyfi), Mr Nick Dawson (Outward Bound Wales),Mr Nigel Willis, (Clwb Cychod Aberdyfi), Y Cyng. Dave Williams, (Aelod o Bwyllgor Gwelliannau a Hysbysebu Aberdyfi).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Huw Davies | - | Prif Beiriannydd |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol Harbyrau |
| Mr Paul Edwards | - | Harbwr Feistr Aberdyfi |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |
| Mrs Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Ioan Thomas, Louise Hughes a Trevor Roberts (Cyngor Gwynedd), Mr Roger Lawson –Mole, (Aelod o Siambr Fasnach Aberdyfi), Mr Sam Wilding, (Cymdeithas Bysgotwyr Bae Ceredigion).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd David Richardson yn Gadeirydd am y flwyddyn 2011/12.**

**Diolchodd yr aelod am yr anrhydedd ac edrych ymlaen at gydweithio gyda staff yr Uned Forwrol am y flwyddyn i ddod.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Dewi Owen yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2010/11. Diolchodd yr aelod am yr anrhydedd.**

**3. DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi gynhaliwyd ar y 15 Mawrth, 2011.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

**5. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL A PHARCIAU GWLEDIG**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol**,** Mr Barry Davies, ar ffurf wahanol i'r arfer gan nodi pwyntiau bwledi yn unig oherwydd cynnydd sylweddol yn y gofynion gwaith a diffyg capasiti i gyflwyno'r adroddiadau i'r un safon.

Adroddwyd ar weithgareddau yn harbwr Aberdyfi gyda chyfeiriad penodol i'r canlynol:

**(i) Mordwyo ac Angorfeydd**

(a) Atgoffwyd yr Aelodau y bu i'r Gwasanaeth fuddsoddi'n sylweddol yn y cymhorthion mordwyo a chyfeiriwyd at yr atodiad oedd ynghlwm yn rhestru'r gwariant ar bob un ohonynt sy'n cyfartalu i gyfanswm o £4,122. Nodwyd y tynnwyd a chwblhawyd gwaith ar Fwi y "Fairway" heb gyfarwyddyd a phwysleisiwyd mai cyfrifoldeb yr Harbwr Feistr ydoedd cyfarwyddo cynnal a chadw'r cymhorthion ac na ddylai contractwr gychwyn ar unrhyw waith oni bai bod cyfarwyddyd clir wedi ei gyflwyno gan yr Harbwr Feistr.

Nododd y Cadeirydd bod un o'r cymhorthion wedi bod oddi ar ei safle ers mis Awst eleni ac o ganlyniad yn anodd i forwyr hwylio o gyfeiriad y Gogledd i'r Harbwr. Fodd bynnag, roedd yr Harbwr Feistr o'r farn bod y bwi yn ôl ar ei safle.

Mewn ymateb i'r uchod ac i sicrhau nad oedd dryswch ynglŷn â lleoliadau'r bwiau, esboniodd y Swyddog Morwrol y byddir yn cynhyrchu siart i ddangos yr union leoliadau ac fe'i cyflwynir i'r Aelodau cyn Gwyl y Nadolig 2011.

(b) O safbwynt cynnal a chadw, nodwyd bod gan y Cyngor rhai angorfeydd yn ei berchnogaeth ond bod y mwyafrif ym mherchnogaeth breifat ac sydd yn cael eu cadw yn y compownd wrth ymyl y Clwb Golff. Er bod rhai perchnogion o dan yr argraff mai'r Cyngor sydd â chyfrifoldeb dros yr angorfeydd hyn, pwysleisiodd y Swyddog Morwrol nad oedd hyn yn gywir ac nad oedd y safle dan sylw o dan reolaeth y Cyngor. Cyfrifoldeb perchnogion yr angorfeydd ydoedd eu harchwilio o ran diogelwch a'u bod yn cydymffurfio â gofynion perthnasol. Cyfrifoldeb yr Harbwr Feistr ydoedd cyfarwyddo'r contractwr allanol ar leoliadau'r angorfeydd. Fe fyddir yn argymell i bob perchennog angorfa i gyflwyno tystysgrif yn tystio bod yr angor yn cydymffurfio â'r gofynion. Bu i'r compownd gael ei glirio ond yn anffodus roedd yn ôl mewn cyflwr truenus eto.

Nodwyd ymhellach bod costau cynnal a chadw'r angorfeydd yn uchel i'r Cyngor a bod yn rhaid pwyso a mesur a ydoedd yn werth buddsoddi mewn angorfeydd ychwanegol. Nodwyd bod Stad y Goron yn edrych i argymell codi cost ychwanegol o £30 am bob un o'r angorfeydd.

(c) Nodwyd y bu i Dŷ'r Drindod gynnal ei archwiliad blynyddol o'r cymhorthion ond ni dderbyniwyd eu sylwadau hyd yma.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(ii) Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr**

Nodwyd y ceir trafferthion mewn achos yn gysylltiol â Harbwr cyfagos a thynnwyd sylw'r Aelodau at yr angen ar bob achlysur i gydymffurfio â gofynion Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr yn arbennig mewn dyfroedd sydd wedi eu categoreiddio dan MSN - 1719. Cyfeiria'r gofynion at hwylio mewn "tywydd ffafriol" ac atgoffwyd yr Aelodau mai cyfrifoldeb perchennog unrhyw gwch ydoedd penderfynu os yw'r tywydd yn rhesymol i hwylio'r cwch ac nid cyfrifoldeb yr Harbwr Feistr. Ymhelaethodd y Swyddog a chyfeiriodd at y camau sy'n cael eu cymryd a'r gofynion sy'n rhaid eu bodloni cyn y caiff trwyddedau perchnogion a chychwyr eu rhyddhau. Fe gynhelir archwiliadau annibynnol gan yr 'MCA' a bod yr adroddiad a gafwyd yn nodi fod y trefniadau sy'n cael eu gweithredu gan y Cyngor yn gweithio'n effeithiol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iii) Ystadegau Morwrol**

(a) Tywysodd y Swyddog Morwrol yr Aelodau drwy'r ystadegau a oedd yn nodi cyfanswm cofrestriad cychod pŵer sef 25 yn Harbwr Aberdyfi ac 1 yn Nhywyn. Gwelwyd gostyngiad o'i gymharu â llynedd a mynegwyd bod yr hinsawdd economaidd yn cael effaith difrifol ar y gweithgareddau hyn yn sgil pris tanwydd, tywydd, a.y.b. Nodwyd ymhellach bod llithrfa wych yn Nhywyn ond eto i gyd nid oedd cymaint o ddefnydd ohoni.

(b) Yn yr un modd roedd ystadegau badau dŵr personol wedi gostwng eleni ond roedd hyn yn gyffredinol yn genedlaethol.

(c) Nodwyd bod 95 (79.2%) allan o 120 o angorfeydd wedi eu meddiannu gyda 45 ohonynt yn drigolion o Wynedd a 50 o du allan i Wynedd. Tra'n derbyn bod y nifer wedi lleihau roedd hyn yn wir am oll Harbyrau'r Cyngor heblaw am Doc Victoria oherwydd mae'n debyg ei fod yn Harbwr cysgodol.

(ch) Er gwybodaeth, nodwyd cymariaethau o ystadegau cychod yng nghyswllt cyfanswm hydoedd, cyfartaledd hyd a chyfanswm dyfnder, gyda chymhariaeth hefyd o ystadegau cychod ymhob Harbwr yn 2011.

(d) Cadarnhawyd rhestr o'r cychod sydd wedi angori yn Harbwr Aberdyfi gan nodi hyd a dyfnder y cychod, ac os ydynt yn lleol ai peidio.

(dd) Nododd y Cadeirydd, yn gysylltiol â'r nifer o angorfeydd, bod oddeutu 20 ohonynt yn wag ynghanol mis Awst eleni. Er bod 95 o angorfeydd yn ymddangos ar yr ystadegau dim ond 75 cwch oedd wedi angori ar yr angorfeydd sy'n golygu bod rhai perchnogion angorfeydd ddim yn eu defnyddio ac felly ei fod yn golled i Aberdyfi o ran unigolion yn gwario yn y busnesau lleol. Er bod ffigwr o 120 ar gyfer angorfeydd yn Aberdyfi, teimlwyd oherwydd problemau siltio nad oedd yn ymarferol i gael 120. Anfonodd y Cadeirydd, ar ei gost ei hun, oddeutu 40 o lythyrau i unigolion ar y rhestr aros sy'n dymuno cael angorfa yn Aberdyfi. Fodd bynnag, o'r ymateb, darganfuwyd bod rhai wedi gwerthu cychod, rhai eraill wedi prynu cychod llai ac mai'r gwir ffigwr ar y rhestr fer bellach ydoedd 12. Pwysleisiodd yr angen i ysgrifennu at yr unigolion i ofyn iddynt eu bwriadau ynglŷn â'r angorfeydd y cedwir ganddynt nad ydynt yn defnyddio.

Mewn ymateb, diolchodd y Swyddog Morwrol i'r Cadeirydd am ymgymryd â'r dasg uchod gan nodi y dylai'r gwasanaeth fod yn fwy rhagweithiol yn hyn o beth i'r dyfodol. Roedd yn hynod siomedig ac yn pryderu nad oedd y gwasanaeth wedi cymryd y camau hyn. Roedd yr Harbwr Feistr a Swyddog Morwrol Harbyrau wedi eu cyfarwyddo i baratoi cynllun manwl a fyddai yn adnabod holl safleoedd angori cychod ac fe roedd yn obeithiol bydd y cynllun yn cael ei ddosbarthu at sylw Aelodau cyn Gŵyl y Nadolig 2011.

(e) Cyfeiriwyd at lythyr a anfonwyd gan y Swyddog Morwrol at berchnogion cychod yn cynnig cyfle i ddalwyr angorfa (nad ydyw yn y marina) angori eu llestr yn Hafan Pwllheli (y marina) am ffi ostyngedig. Roedd y cynnig hwn ar gael ar sail y cyntaf i'r felin i ddalwyr angorfa flynyddol sydd wedi talu eu ffi yn llawn yn Harbyrau Pwllheli, Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi. Fe fyddai'r cyfnod yn ymestyn o 1 Hydref 2011 hyd 31 Mawrth 2012 am £72 y mis, yn cynnwys TAW a thrydan (yn ddarostyngedig ei fod ar gael).

Nododd y Swyddog Morwrol mai bwriad yr uchod ydoedd i geisio sicrhau fod perchnogion cychod yn cael y cyfle i hwylio drwy dymor y gaeaf a chyflwyno cyfle iddynt angori eu cychod mewn harbwr gymharol gysgodol dros dywydd garw'r gaeaf. Roedd hyn hefyd yn sicrhau fod cychod yn cyfrannu at incwm yr Hafan Pwllheli yn ystod y gaeaf ond eu bod yn dychwelyd i'r Harbyrau eraill yn ystod yr haf. Roedd un cwch o Aberdyfi wedi cymryd mantais o'r cynnig uchod.

Roedd y Cadeirydd o'r farn bod y cynnig uchod yn syniad da iawn o ystyried bod Aberdyfi wedi colli defnydd o'r craen a'r unig feirniadaeth a deimlwyd ydoedd y dylid fod wedi gohebu'n gynharach hefo unigolion nag ym mis Medi fel y gwnaethpwyd.

(f) Nodwyd pryder gan gynrychiolwyr y Clwb Cychod nad oedd y gwaith o osod angorfeydd yn ystod y ddau dymor diwethaf wedi adlewyrchu anghenion yr aelodau. Awgrymwyd mai'r rheswm am hyn oedd nad yw'r contractwr angorfeydd yn ymgynghori gyda'r Harbwr Feistr cyn gosod yr angorfeydd ar ddechrau'r tymor. Gofynnwyd pa gamau y bwriedir eu cymryd i sicrhau bod y contractwr ond yn gosod yr angorfeydd wedi ymgynghori gydag awdurdodau'r harbwr lleol.

Mewn ymateb, sicrhaodd y Swyddog Morwrol y cynhelir cyfarfod gyda'r contractwr a staff yr Harbwr gan amlygu cynllun o'r aber gyda'r holl angorfeydd wedi eu marcio'n glir ar siart. Hyderir y bydd cynllun manwl yn nodi'r angorfeydd cyn y Nadolig.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(iv) Cyllidebau'r Harbwr**

(a) Tywysodd y Swyddog Morwrol yr aelodau drwy gyllidebau'r harbwr gan dynnu sylw aelodau at y sefyllfa ariannol hyd at 31 Awst 2011 ynghyd a chyllideb gwariant yr harbyrau a thargedau incwm am 2011/12. Wrth dywys yr Aelodau drwy'r penawdau nodwyd bod tanwariant o £11,961o dan y pennawd cynnal a chadw gan egluro nad oedd hwn yn rhan barhaol o'r gyllideb ond bod yr arian wedi ei ychwanegu dros dro er mwyn gwella cyfleusterau yn Harbwr Aberdyfi. Nodwyd ymhellach bod cyllideb gwariant Harbwr Aberdyfi yn llawer iawn gwell na'r disgwyl eleni gyda'r rhagolygon yn dangos oddeutu £8,000 yn well allan ar ddiwedd Medi. Nodwyd targed incwm o £39,960 i Harbwr Aberdyfi a gwnaed cymhariaeth gyda chyllidebau Harbwr Abermaw a oedd yn oddeutu £46,000.

Pwysleisiwyd bod yn rhaid edrych ar ffioedd a thaliadau am y flwyddyn i ddod gyda'r bwriad o argymell codi'r ffioedd oddeutu 2% - 3.5%.

(b) Apeliodd Aelod ar i swyddogion beidio torri'r gyllideb clirio tywod y flwyddyn yma oherwydd bod y tywod wedi bod yn hunllef eleni yn arbennig i'r Clwb Hwylio a'r angorfeydd. Profwyd anawsterau i hwylio i'r Harbwr yn wyneb y ffaith bod y tywod wedi chwythu ar y llithrfa ac unigolion yn eu defnyddio fel traeth. Byddai diwrnod o waith gyda pheiriant JCB i glirio'r tywod oddi ar y llithrfa wedi gwneud gwahaniaeth i'r sefyllfa.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Beiriannydd y byddir yn symud y tywod eleni ond anghytunai bod llawer o dywod i'w symud yn ystod y flwyddyn ac mai gwyntoedd cryfion oedd yn gyfrifol am chwythu'r tywod ar y llithrfa. Mewn ymateb i awgrym i ddefnyddio dull arall o glirio'r tywod megis pympiau pwrpasol yn hytrach na defnyddio peiriannau trwm, eglurodd y Prif Beiriannydd bod dulliau eraill wedi eu gwyntyllu ond daethpwyd i ganlyniad y byddai'n fwy costus.

Awgrymwyd y dylid gosod posteri ar y llithrfa i hysbysu'r cyhoedd mai tramwyfa ydoedd i gychod.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(v) Digwyddiadau**

(a) Croesawyd Mr Tom Lewis, Swyddog Amgylcheddol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, o Buckley, Yr Wyddgrug, i adrodd ar ganlyniadau ansawdd dŵr ymdrochi yn Aberdyfi.

Ymddengys o'r profion a'r canlyniadau a gyflwynodd i'r Aelodau yn ystod y cyfarfod ei bod yn edrych yn addawol ar gyfer canlyniadau da flwyddyn nesaf. Gwnaed cymhariaeth gyda'r blynyddoedd a fu gan nodi ar gyfartaledd bod y canlyniadau dros y tair blynedd diwethaf yn eithaf da. Fodd bynnag, o dan Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd newydd sy'n dod i rym 2015 byddai'n rhaid cwrdd â meini prawf caeth ac yn sgil hyn felly byddai'n rhaid cynnal safonau am bedair blynedd.

Mewn ymateb i farn a gyflwynwyd gan Aelod yn datgan y byddai canlyniadau yn dda pe byddir yn cymryd y profion yn ystod gor-lanw yn hytrach na thrai, esboniodd Mr Lewis, tra'n derbyn bod llanw yn cael effaith ar ganlyniadau, bod amseroedd a dyddiadau ar gyfer cymryd profion wedi eu pennu ar gyfer flwyddyn gyfan. Nid oedd bwriad i uchafu'r nifer o brofion a derbyniwyd bod dylanwadau ar y foryd yn gallu newid mewn cyfnod o hanner awr.

Ychwanegodd Aelod arall sylw ei fod o'r farn yn ystod y blynyddoedd blaenorol bod tywydd garw yn gallu effeithio ar y canlyniadau ond eleni bod y tywydd wedi bod mwy ffafriol. Tra'n cytuno gyda'r Aelod, eglurodd Mr Lewis bod modd cymryd i ystyriaeth am dywydd garw o fewn y gyfarwyddeb a bod modd i'r Asiantaeth gyfeirio sylwadau i DEFRA ynglŷn â hyn.

Nododd Aelod ei fod yn anffortunus bod adroddiad wedi ymddangos yn y wasg yn nodi bod y traeth yn Aberdyfi yn berygl i iechyd oherwydd nad oedd yn cydymffurfio â'r profion perthnasol ac o ganlyniad roedd hyn wedi creu argraff wael i'r pentref. Gofynnwyd a oedd arllwysiad carthion ymhellach i fyny'r afon yn gallu cyfrannu tuag at y canlyniadau gwael.

Mewn ymateb, cadarnhaodd Mr Lewis ei fod wedi gwneud ymchwiliadau trylwyr o'r ddwy ochr i'r foryd ac ymddengys bod gwaith carthion Machynlleth yn gollwng elifion yn ystod glaw trwm. Roedd ei gydweithwyr wedi ymweld â nifer o'r ffermydd y tybir i fod yn risg uchel i'w cynghori o ymarfer da. Gwnaed archwiliadau o danciau septig domestig ynghyd â rhai masnachol, yn ogystal â cherdded cwrs dŵr. Ymwelwyd hefyd â dau safle carafanau helaeth yn yr ardal i archwilio gwaith carthion ac fe ddylid gweld gwelliant arwyddocaol o ganlyniad i fuddsoddiad sylweddol mewn un o'r safleoedd hyn. Yn nhyb y swyddog, roedd amryw o safleoedd gwaith carthion megis yn Dderwen Las, Machynlleth, Darowen, Mallwyd, Pont-ar-ddyfi, Pantperthog, a all gyfrannu tuag at ganlyniadau ansawdd dŵr yn Aberdyfi. Yng nghyswllt gwaith carthion Machynlleth, cynhaliwyd cyfarfod gyda Thîm Rheoli Gwaith Carthion Gogledd Cymru i fynegi pryder ynglyn â gollwng elifion i'r afon ac fe gadarnhawyd y byddir yn trin ardal y Ddyfi fel achos o risg uchel. Felly, ymddengys bod y canlyniadau gwael yn deillio o'r afon ac nid o'r môr. Fel camau nesaf, cadarnhaodd Mr Lewis y byddir yn pwyso ar Dŵr Cymru i ddatrys unrhyw ddiffygion er mwyn gwella ansawdd dŵr ymdrochi yn Aberdyfi ac fe fyddir yn casglu data yn dilyn arbrofi pellach yn y safleoedd carafanau. Apeliwyd ar Aelodau os ydynt yn gweld unrhyw beth a all gyfrannu tuag at brofion gwael i'r dyfodol iddynt gysylltu ar union gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ychwanegodd Aelod bod ganddo bryder ynglyn ag arllwysiad safle carafanau cyfagos yn enwedig yn ystod glaw trwm ac y dylid cadw golwg ar y safle hwn. Ymddengys bod peipen yn arllwys dŵr i'r ffordd pan fo dŵr wyneb yn methu ymdopi yn ystod tywydd garw.

Mewn ymateb, addawodd Mr Lewis y byddai'n ymweld â'r safle yn ystod tymor y gaeaf. Gwelwyd ar ei ymweliad diweddar nad oedd caead ar y tanciau a all greu problem enfawr pan fo dail yn disgyn.

**Diolchwyd i Mr Lewis am ei gyflwyniad a hyderir y byddai profion dŵr i'r dyfodol yn gadarnhaol ac yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol.**

(b) Nododd y Swyddog Morwrol bod y Gloch Llanw ac Amser bellach wedi ei lleoli ac yn edrych yn dda, a hyderir y bydd yn denu llawer o ymwelwyr i'r dyfodol.

Ar ran y Cyngor Cymuned a thrigolion Aberdyfi, cymerodd y Cynghorydd Dewi Owen y cyfle i ddiolch i'r swyddogion am eu cydweithrediad a'r hawl i osod y gloch o dan y lanfa. Roedd yn sicr y byddai'r gloch yn atyniad gwerthfawr i ddenu twristiaid i Aberdyfi.

(c) O safbwynt diogelwch y cyhoedd ar y traeth, nododd Aelod er nad oedd llawer o ddamweiniau wedi eu cofnodi ers oddeutu pedair blynedd, rhybuddiwyd y dylid bod yn wyliadwrus yn yr ardal o'r traeth o Trefeddian i'r fynwent oherwydd y llanw terfol. Er bod yr ardal hon yn ddeniadol teimlwyd na ddylid annog y cyhoedd yno oherwydd y gall greu problemau a'r angen i ddefnyddio gwasanaethau brys, a.y.b.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(vi) Consesiynau a Gwelliannau**

(a) Nododd y Swyddog Morwrol, tra'n derbyn bod atgyweirio'r cysgodfannau yn Aberdyfi yn tyllu i mewn i gyllideb yr Harbwr, roedd yn ofynnol cadw eu safon. Nodwyd dirywiad yng Nghysgodfan Penhelyg a rhagwelir buddsoddiad o oddeutu £12,000 o'r gyllideb flwyddyn nesaf ac y byddir yn trafod ymhellach parthed cynigion lleol. Yn yr un modd byddai'n ofynnol cynnal a chadw'r gysgodfan ger yr Institiwt.

Mewn ymateb, deallir bod Ymddiriedolaeth Richard Roberts yn barod i gyfrannu 50% o'r costau i atgyweirio Cysgodfan Penhelyg gyda'r Cyngor yn cyfrannu at y 50% sy'n weddill.

(b) Nodwyd bod ysgolion yr Harbwr yn cael eu harchwilio'n wythnosol gan yr Harbwr feistr a bod cofnod manwl o'r archwiliadau yn cael eu cadw gan y Gwasanaeth. Yn yr un modd, roedd yr holl lithrfeydd hefyd yn cael eu harchwilio yn wythnosol gyda chofnod manwl yn cael ei gadw..

(c) O safbwynt adnewyddu wal y cei a gosod pontŵn, adroddodd y Swyddog Morwrol nad oedd cyllid tebygol ar gael i'w wireddu hyd nes 2013 ymlaen.

Mewn ymateb, nododd Aelod y hyderai bod y gwasanaeth a'r Cyngor yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer hyn yn wyneb y ffaith bod Aberdyfi yn hollol ddibynnol ar weithgareddau'r Harbwr i ddenu cwsmeriaid ac y dylid bod yn rhagweithiol.

Nododd y Cadeirydd ymhellach nad oedd yr ysgolion yn Aberdyfi yn gyfeillgar i'r defnyddiwr o'i gymharu â Doc Victoria yng Nghaernarfon. Pwysleisiwyd felly bwysigrwydd i ddenu cychod i Aberdyfi a bod lle i wella yn hyn o beth. Dylid darparu cynlluniau ymlaen llaw fel bo modd eu cyflwyno pan fydd arian ar gael i'w gweithredu.

Tra'n derbyn y sylw uchod, nododd y Swyddog Morwrol bod cynllun wedi bod ger bron y Pwyllgor ond bod yn rhaid ymgymryd ag astudiaethau pellach. Nododd ymhellach bod y traeth hefyd yn ased i Aberdyfi a phan fo'r tywydd yn braf bod y traeth ynddo'i hun yn denu llawer o ymwelwyr. Fel gwasanaeth fe gydweithredwyd gyda grŵp o Abermaw i geisio denu arian o Gynllun SPLASH ond yn anffodus fe wrthodwyd y cais hwnnw. Yn yr un modd, fe gydweithir gyda Chlwb Hwylio Porthmadog i ymgymryd â gwelliannau yn yr Harbwr a gwelwyd 46 o gychod ymwelwyr i'r Harbwr eleni.

(ch) Adroddodd y Swyddog Morwrol bod y Pont droed sydd yn arwain at ardal Bryn Llestair yn creu pryder o ystyried bod y gwasanaeth wedi gorfod mabwysiadu cyfrifoldeb dros yr ardal dan sylw. Roedd trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda swyddogion o Network Rail gyda'r bwriad o dynnu'r bont ac ail-osod un metal yn ei lle yn ddibynnol ar ddarganfod ffynhonnell arian ar gyfer y gwaith. Mewn ymateb i ymholiad ynglyn ag amserlen, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol nad oedd amserlen benodol wedi ei nodi.

(d) Nodwyd bod y gwasanaeth wedi ymgymryd â buddsoddiad sylweddol yn y Storfa Disel.

Nododd Aelod ymhellach bod y Clwb Hwylio wedi gwario oddeutu £16,000 i wella eu cyfleusterau a fydd yn cynorthwyo cychod ymweld.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(vii) Diogelwch Offer Morwrol**

Cyfeiriwyd at ffurflen gofrestru gwarchod morol a oedd ynghlwm i'r Rhaglen i'w gweithredu mewn cydweithrediad â'r Heddlu sy'n awyddus i ail-weithredu'r cynllun gyda'r awdurdod. Bwriedir gohebu gyda phob un o gwsmeriaid yr Harbwr gan eu hannog i gofrestru eu heiddo a hyderir y gellir derbyn eu cefnogaeth i fod yn rhan o'r cynllun yn 2012. Ceir llawer o droseddau yn ymwneud â chyfarpar morwrol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**(viii) Staff Harbwr**

Ymhelaethwyd ar drefniadau staffio'r Harbwr yn ystod Gaeaf 2011/12 sef bod contract y Cymhorthydd Harbwr wedi dirwyn i ben ddiwedd mis Medi ac y byddai Harbwr Feistr Abermaw yn cynorthwyo yn Harbwr Aberdyfi am un diwrnod o'r wythnos. Yn anffodus, nid yw cyllidebau yn caniatáu i gyflogi dau aelod o staff yn Aberdyfi dros gyfnod y gaeaf o Hydref i fis Mawrth. Pe byddai gwaith ychwanegol i'w gwblhau, byddai staff o Borthmadog a Phwllheli yn cynorthwyo.

Cyflwynwyd rhaglen waith cynnal a chadw er gwybodaeth i'r Aelodau yn nodi blaenoriaethau ar gyfer flwyddyn nesaf.

Mynegodd Aelod bod y raciau storfa wedi bod yn llawn eleni gyda pherchnogion ceufadau yn ei ddefnyddio ac awgrymwyd y dylid cael trefn ar hyn iddynt dalu am y defnydd.

Mewn ymateb, cydnabyddai'r Swyddog Morwrol nad oedd y ceufadau wedi cofrestru ond braf ydoedd gweld cychod ar y dŵr. Yn sicr roedd angen datrys y sefyllfa ynglyn â chodi ffioedd am ddefnydd y raciau ac fe roedd yn ddyletswydd ar yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau i weithredu ar hyn. Atgoffwyd bod y mater wedi ei drafod yn y cyfarfod ym mis Mawrth eleni ac fe ddylai fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i ddatrys y broblem cyn cychwyn tymor yr Haf eleni.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:40 pm

**<u>CADEIRYDD</u>**